

# Y PWYLLGOR CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU

## 6 Tachwedd 2019

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)  
Mr Allan Archer, y Cynghorydd D Clements, Dr R Plummer,  
y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.25pm – 1.15pm)

### 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol gan y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd P Kidney.

### 2. Datgeliadau

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

### 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019.

### 4. Adolygiadau Datblygiad Personol a'r Diweddaraf am y Siarter

#### a) Fframwaith ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol

Soniwyd fod yr Awdurdod, yn ei ymdrechion i gynorthwyo'r Aelodau i ddatblygu eu sgiliau a'u sylfaen wybodaeth, wedi sefydlu ystod o ddulliau, gan gynnwys proses hunanasesu lle'r oedd yr Aelodau yn datgan drostynt eu hunain pa gymorth (os o gwbl) yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi cyfle i bob Aelod gael Adolygiad o'i Ddatblygiad Personol (PDR) i asesu eu hanghenion. Hefyd, roedd Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch i ymgymryd â PDR, a bod trefniadau i fod ar waith i gynnig PDR i'r holl Aelodau.

Gyda hyn mewn golwg, roedd y Strategaeth Datblygu Aelodau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar 25 Gorffennaf 2019 yn cynnwys ymrwymiad i gynnig PDR i'r holl Aelodau. Roedd canllawiau bellach ar gael yn disgrifio'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau o'r fath, ac roeddynt wedi'u hatodi i'r adroddiad i'r Aelodau eu hystyried. Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei sylwadau defnyddiol ar ddrafftiau cynnar o'r canllawiau.



Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y ffurflen i'w llenwi cyn y PDR yn weddol syml, gan y gallai ffurflen gymhleth annog pobl i beidio â'i llenwi. Roeddent hefyd o'r farn bod yr enghreifftiau a roddwyd ar y ffurflen yn ddefnyddiol. Awgrymwyd, er mwyn annog y PDR i gael ei gynnal, y gellid neilltuo amser cyn neu ar ôl cyfarfod Awdurdod neu Bwyllgor i wneud hynny.

Bu peth trafodaeth ynghylch yr unigolyn sy'n hwyluso'r PDR, a ddisgrifir yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r ffurflen. Awgrymodd rhai Aelodau y gallent fod yn fwy cyfforddus gyda hwylusydd allanol, a nodwyd ei bod yn bosibl, mewn Awdurdodau eraill, gofyn i'r Rheolwr Adnoddau Dynol neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i ymgymryd â'r PDR ynghyd â Chadeirydd. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai holi pwy oedd yn ymgymryd â'r trefniadau PDR mewn Awdurdodau eraill yn y cyfarfod Rhwydwaith Cynorthwyo Aelodau a oedd ar y gweill, ond cytunwyd y dylid caniatáu ystod eang o hwyluswyr fel y gallai Aelodau a oedd â sgiliau o'r fath yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol hefyd o bosibl gael eu cynnwys yn amodol ar hyfforddiant priodol. Nodwyd bod y paragraff ar waelod tudalen 5 o'r canllawiau yn caniatáu i berson gwahanol gynnal yr Adolygiad, ond gofynnwyd i'r paragraff hwn gael ei ddiwygio i ganiatáu mwy o hyblygrwydd.

Aeth y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd rhagddi i ddweud y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfranogwyr a hwyluswyr ac eglurodd nad rôl yr hwyluswyr oedd darparu unrhyw anghenion hyfforddi a nodwyd. Ar ôl y PDR, byddai'r Aelodau'n cwblhau Cynllun Cymorth Datblygiad Personol a fyddai'n cael ei drosglwyddo'n gyfrinachol i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd a fyddai'n ei ddefnyddio i lywio rhaglenni hyfforddi yn y dyfodol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod Cadeirydd yr Awdurdod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, a bu'n ofynnol iddi gynnal adolygiad gyda Dirprwy Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru. Dylai'r posibilrwydd y gallai hyn fod yn ofynnol yn y dyfodol hefyd gael ei adlewyrchu yn y canllawiau.

Yn olaf, codwyd cwestiwn ynghylch gwerthuso'r broses a dywedodd y Cadeirydd y byddai'n darganfod sut roedd Awdurdodau eraill yn gwneud hyn, ond ychwanegodd y byddai unrhyw werthusiad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar gytuno ar fanylion y newidiadau a awgrymwyd yn y cyfarfod gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, y dylid mabwysiadu'r canllawiau ar gyfer yr Adolygiad o Ddatblygiad Personol, a bod y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn cael ei chyfarwyddo i drefnu sesiwn hyfforddi



briodol i bob Aelod, ar ôl cyfarfod arall a drefnwyd, er mwyn annog presenoldeb.

b) Meini Prawf ar gyfer Statws Siarter Uwch

Atgoffwyd yr Aelodau fod y ddogfen Meini Prawf, a oedd yn atodedig i'r adroddiad, wedi cael ei hystyried yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, a'i bod yn cynnwys y gwaith a wnaed eisoes gan yr Awdurdod ac yn nodi'r hyn yr oedd angen ei gyflawni cyn y gellid cyflwyno cais am y Siarter Uwch.

Soniwyd bod y ddogfen wedi'i diweddarau ers y cyfarfod diwethaf i adlewyrchu'r camau a gymerwyd, a soniodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd wrth yr Aelodau am y rhain. Dywedodd y byddai'r ddogfen yn cael ei diweddarau ymhellach ar ôl y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Awgrymwyd, er bod yr Awdurdod wedi penderfynu gwneud cais am Siarter Uwch, y dylid cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod cyfan er gwybodaeth cyn gwneud cais.

**PENDERFYNWYD** nodi'r ddogfen meini prawf a bod y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau a amlinellir ynddi.

**5. Diolch**

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Allan Archer, fel Cadeirydd y Gweithgor a ragflaenodd y Pwyllgor hwn, am ei gyfraniad i'r broses Datblygu Aelodau. Nodwyd y byddai tymor Mr Archer yn y swydd gyda'r Awdurdod yn dod i ben ddiwedd mis Tachwedd ac felly hwn oedd ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor.

